crc comisiwn richard commission

Trefniadau etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru: materion a chwestiynau i ymgynghori arnynt

Mawrth 2003

Y Comisiwn ar Bwerau a Threfniadau
Etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Aelodau'r Comisiwn

Cadeirydd: Y Gwir Anrh Arglwydd Richard o Rydaman CF: Gynt yn Arweinydd Tŷ'r Arglwyddi, Comisiynydd y GEE, Aelod Seneddol a Llysgennad y DU i'r Cenhedloedd Unedig.

Eira Davies: Yn dod o Wrecsam, Rheolwr Gyfarwyddwr ar fusnes cyhoeddi ar y we. Aelod o Fwrdd S4C a Choleg Llandrillo Cymru.

Tom Jones: Ffermwr o'r Trallwng, Powys. Cadeirydd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, aelod o Gyngor Cefn Gwlad Cymru, a Chadeirydd Ymddiriedolaeth Elusennol Stadiwm y Mileniwm.

Dr Laura McAllister: Uwch Ddarlithydd mewn Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Gwleidyddiaeth, Ysgol Reolaeth, Prifysgol Lerpwl. Mae'n dod o Ben-y-bont ar Ogwr ac yn byw yn Lerpwl.

Peter Price: Gynt yn Aelod o Senedd Ewrop. Aelod o Gomisiwn Rheolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol. Cyfreithiwr, Cadeirydd rhan amser y Tribiwnlys Cyflogaeth. Yn byw yng Nghaerdydd.

Ted Rowlands: Gynt yn AS Merthyr Tudful a Rhymni a Gogledd Caerdydd, Gweinidog yn y Swyddfa Gymreig a Gweinidog yn y Swyddfa Dramor. Mae'n byw yn Sir Gaerfyrddin.

Vivienne Sugar: Ymgynghorydd Llywodraeth Leol, cyn Brif Weithredwr Dinas a Sir Abertawe. Yn byw yn Abertawe.

Huw Thomas: Yn dod o Fae Colwyn. Cyfarwyddwr Cwmni Ymgynghori Taro Cyf. a chyn Brif Weithredwr Cyngor Sir Ddinbych. Ymddiriedolwr RNID Cymru, Aelod lleyg o Gyngor Cymdeithas y Cyfreithwyr ac aelod ddefnyddiwr o'r Cyngor Cymorthion Clywed.

Syr Michael Wheeler-Booth KCB: Gynt yn Glerc y Seneddau yn San Steffan. Aelod o'r Comisiwn Brenhinol ar Ddiwygio Tŷ'r Arglwyddi a Chomisiwn Rheolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol. Darlithydd arbennig yng Ngholeg Magdalen, Rhydychen.

Paul Valerio: Arglwydd Faer cyntaf Abertawe yn 1982. Cynghorydd, Dinas Abertawe. Wedi ymddeol o'r busnes teuluol yn y diwydiant arcedau difyrion. Yn byw ym Mhenrhyn Gŵyr.

ISBN 0 7504 3164 4
Dyluniwyd gan CartoGraffeg G/611/02-03
Mawrth
© Hawlfraint y Goron 2003
Cysodwyd gan y Gwasanaethau Prosesu Testun

Trefniadau etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
materion a chwestiynau i ymgynghori arnynt

Cefndir

1. Apwyntiwyd y Comisiwn yng Ngorffennaf 2002. Cynhyrchu adroddiad annibynnol erbyn diwedd 2003 yw ei swyddogaeth. Bydd yr adroddiad yn cyfrannu at benderfyniadau ar ddyfodol y Cynulliad Cenedlaethol a'r modd y llywodraethir Cymru yn y dyfodol.

2. Wrth baratoi ein hadroddiad rydym eisiau elwa oddi wrth farn a phrofiad gymaint o unigolion a mudiadau ag sy'n bosibl, yn enwedig o Gymru, ond hefyd o lefydd eraill.

3. Fel cam cyntaf hoffem eich gwahodd chi i ddanfon atom ddatganiad ysgrifenedig o'ch barn chi – efallai y byddwn yn dymuno archwilio'r rhain mewn cyfarfodydd gyda chi yn hwyrach.

4. Mae Cylch Gorchwyl y Comisiwn yn cynnwys dwy elfen glir :

a. pwerau

b. trefniadau etholiadol

Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

5. Mae'r ymgynhoriad hwn yn gysylltiedig â'r ail o'r rhain – cyhoeddodd y Comisiwn bapur yn delio gyda phwerau'r Cynulliad Cenedlaethol yn Nhachwedd 2002 – mae copïau ar gael oddi wrth Gomisiwn Richard (manylion cysylltu isod).

6. Bwriedir i'r cwestiynau a osodir isod eich helpu i roi sylwadau ar y pynciau ond nid cyfyngu trafodaeth yw'r nod. Os oes yna unrhyw bynciau eraill y credwch sy'n berthnasol ac y dylai'r Comisiwn eu hystyried mae croeso i chi eu cynnwys yn eich atebiad.

Dull gweithredu'r Comisiwn

7. Yn ei bapur ymgynghorol cyntaf dynododd y Comisiwn ei fwriad i gymryd agwedd ymarferol iawn tuag at y cylch gorchwyl – gan ganolbwyntio ar sut mae pethau'n gweithio ar hyn o bryd a sut y gellir eu gwella.

8. Mae'r Comisiwn yn bwriadu cymryd agwedd debyg i'r trefniadau etholiadol. Nid yw'n fwriad ganddo archwilio'n fanwl, o egwyddorion sylfaenol, yr holl ddewisiadau posib i'r system etholiadol bresennol – ceir crynodeb o'r rhain yn Atodiad[1] . Yr ymdriniaeth yw i ystyried cryfderau a gwendidau'r system sy'n bodoli'n barod ac yna i ystyried gwelliannau posibl.

9. Mae Cylch Gorchwyl y Comisiwn yn cynnwys tair elfen glir:

- **p'un ai yw maint y Cynulliad yn ddigonol i'w swyddogaeth bresennol**
- **p'un ai yw'r system etholiadol bresennol yn ddigon cynrychioladwy**
- **p'un ai fyddai angen unrhyw newidiadau petai'r Cynulliad yn ennill pwerau pellach.**

Trafodir hyn isod.

Egwyddorion

10. Mewn perthynas â maint y Cynulliad bwriad y Comisiwn yw cael ei arwain gan ddwy egwyddor allweddol:

a. dylai maint ddilyn swyddogaeth

b. dylai unrhyw gynnydd mewn maint gael ei gyfiawnhau gan y gwaith sydd angen ei wneud.

Maint y Cynulliad Cenedlaethol – heb unrhyw newid mewn swyddogaethau

11. Mae'r Cynulliad presennol yn cynnwys 60 Aelod, 40 AC etholaeth a 20 Aelod rhestr yn cynrychioli 5 rhanbarth etholiadol – trafodir dull ethol isod. Mae 129 Aelod gan Senedd yr Alban (gweler tabl 2 isod) ac mae 108 gan Gynulliad Gogledd Iwerddon.

1 Atgynhyrcha hwn y crynodeb ffeithiol a baratowyd yn wreiddiol ar gyfer adolygiad Comisiwn Sunderland o drefniadau etholiadol awdurdod lleol (Adroddiad y Comisiwn ar Drefniadau Etholiadol Llywodraeth Leol yng Nghymru - Gorffennaf 2002).

12. Y cwestiwn cyntaf i'w ystyried yw p'un ai yw maint y Cynulliad yn ddigonol i gyflawni ei swyddogaethau gweithredol presennol gan gadw mewn cof bod yna, allan o'r 60 Aelod etholedig, 9 yn aelod o'r Cabinet, 5 yn is Weinidogion a 2 ohonynt yn Lywydd ac Is Lywydd. Mae hyn yn gadael 44 Aelod i gyflawni gwaith y Cynulliad gan gynnwys y rolau canlynol:

- cynrychiadol – yn cynrychioli eu hetholaethau neu ranbarthau a dadlau eu hachos

- cydgynghorol – trafod materion sy'n effeithio Cymru

- archwiliadol – archwilio gweithrediadau Llywodraeth y Cynulliad, gan gynnwys ei ddefnydd o bwerau datganoledig cyfreithiol a'i benderfyniadau gwariant

- datblygu polisi – dadansoddi problemau a gwneud argymellion ar eu datrys.

Cyflawnir y gwaith hwn gan Aelodau:

- yn eu hetholaethau neu ranbarthau

- oddi mewn i Bwyllgorau'r Cynulliad

- yn sesiynau llawn y Cynulliad.

Y cwestiynau i ymgynghori arnynt yw:

a. a yw maint presennol y Cynulliad (h.y. 60 Aelod) yn ddigonol i ymgymryd â'i gyfrifoldebau wrth gwrdd ag anghenion Cymru?

b. pa dystiolaeth sydd yna nad yw'r dyletswyddau presennol fel y'u gosodwyd ym mharagraff 12 uchod yn cael eu cyflawni'n ddigonol a faint o le sydd yna i ad-drefnu trefniadau gwaith a gwella effeithiolrwydd heb greu rhagor o Aelodau?

c. pe na bai ad-drefniant yn cyflawni'r gwelliannau angenrheidiol, pa nifer o Aelodau fyddai eu hangen fel bo'r cyfrifoldebau sy'n bodoli yn cael eu cyflawni'n effeithiol?

d. beth yw'r manteision, ar wahân i'r gost, sydd gan Gynulliad gymharol fach a allai gael eu colli petai'r niferoedd yn cynyddu?

Maint y Cynulliad – gyda'r caffaeliad o bwerau pellach

13. Mae Cylch Gorchwyl y Comisiwn yn gofyn ei fod yn ystyried ehangder (h.y. ystod y pynciau y mae'n eu rheoli) a dyfnder (h.y. y gallu i effeithio ar newid oddi mewn i'r pynciau yna) pwerau'r Cynulliad ill dau. Petai'r Cynulliad yn ennill pwerau pellach unai trwy ehangu ei bwerau gweithredol neu drwy ennill y pwer i lunio deddfwriaeth sylfaenol tebyg i'r hyn sydd gan Senedd yr Alban neu Gynulliad Gogledd Iwerddon, byddai hyn yn ychwanegiad mawr at ei gyfrifoldebau. Byddai pwerau ddeddfwriaethu sylfaenol yn caniatáu'r Cynulliad i greu hawliau a dyletswyddau newydd gorfodadwy gan y llysoedd, sydd â'r potensial i fynd ymhell y tu hwnt i'r pwerau sydd ganddo ar hyn o bryd i lunio is-ddeddfwriaeth. Byddai hyn yn golygu y byddai'n rhaid i ddadansoddiad ac archwiliad Seneddol fod yn fwy dwys nag sydd ei angen mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth israddol y mae'r Cynulliad yn gyfrifol drosto ar hyn o bryd.

14. Byddai'r tasgau ymglymedig yn cynnwys:

a. ffurfio ac ymgynghori ar y polisi i'w roi ar waith gan y ddeddfwriaeth newydd

b. drafftio manwl ar Fesurau sy'n rhoi'r newidiadau angenrheidiol mewn grym

c. yr archwilio a'r gwella ar ddarpariaethau manwl, mewn Pwyllgor ac mewn sesiynau llawn.

15 Bydd arwyddocâd caffaeliad pwerau deddfwriaethol sylfaenol, ar gyfer **llwyth gwaith staff** ac ar gyfer **strwythur cyfreithiol** y Cynulliad, yn cael ei ystyried yn fanwl yn adroddiad terfynol y Comisiwn, wedi ei seilio ar y dystiolaeth a dderbyniwyd. Pwnc y papur hwn yw'r **goblygiadau ar gyfer maint y Cynulliad** o ennill pwerau pellach.

16. Mae'r ystyriaethau canlynol yn berthnasol:

a. mae pasio cyfreithiau yn golygu llawer o waith ar gyfer Aelodau wrth ddadansoddi a dadlau'r cynigion ac ymgynghori arnyn nhw

b. mae'r swyddogaeth adolygu h.y. ystyried cyfreithiau drafft linell wrth linell er mwyn sicrhau bod eu heffaith yn glir, yn cyflawni bwriad y deddfwriaethwyr heb fod iddo effeithiau gwrthnysig anfwriadol, yn hanfodol wrth gynhyrchu deddfwriaeth dda

c. mae baich y gwaith o astudio cyfreithiau newydd yn syrthio'n bennaf ar Bwyllgorau, ac nid yw wedi ei rannu'n hafal – er enghraifft mae cyfaint y ddeddfwriaeth yn debygol o fod yn fwy ym meysydd iechyd ac addysg nac mewn datblygiad economaidd.

Y cwestiynau i ymgynghori arnynt yw:

a. a fyddai'r nifer presennol o Aelodau yn gallu ymgymryd yn effeithiol â'r gwaith ychwanegol sy'n ymglymedig ag ennill unai swyddogaethau newydd arwyddocaol neu bwerau deddfwriaethol sylfaenol?

b. a oes yna ardaloedd yn y gwaith presennol a allai gael eu lleihau, neu a allai trefniadau sy'n bodoli, megis maint y Pwyllgorau ac amlder y cyfarfodydd, gael eu newid i gwrdd ag anghenion y fath gyfrifoldebau ychwanegol ac os felly pa newidiadau fyddech yn eu hargymell?

c. a oes yna achos dros gynyddu nifer yr Aelodau os rhoddir pwerau ychwanegol i'r Cynulliad – ac os felly, beth fyddai'r maint addas iddo?

System etholiadol y Cynulliad

17. Mae'r Cynulliad presennol yn cynnwys 60 aelod, 40 wedi'u hethol drwy bleidleisiau mwyafrif syml a wnaed mewn etholaethau cydffiniol ag etholaethau Seneddol, a 20 a etholwyd drwy bum rhanbarth etholiadol gan y System Aelod Ychwanegol sy'n clustnodi seddau i bob plaid er mwyn dynesu eu cynrychiolaeth at y gyfran o bleidleisiau y gwnaethant eu derbyn ym mhob rhanbarth. Mae'r canlyniadau y cynhyrchodd y system hwn yn etholiad 1999 i'w gweld yn Tabl 1:

Tabl 1: Canlyniadau etholiadau Cynulliad 1999

Plaid	Seddau etholaeth	Seddau rhestr	Cyfanswm
Ceidwadwyr	1	8	9
Llafur	27	1	28
Democratiad Rhyddfrydol	3	3	6
Plaid Cymru	9	8	17

18. Gwelwyd bod y system gymysg yma sy'n cyfuno elfennau mwyafrifyddol (Cyntaf yn y Ras) ac elfennau cyfrannol yn cynhyrchu 2 fantais:

a. cynnal y model etholaeth aelod unigol ble mae pob AC etholaethol yn cynrychioli'r holl bobl yn yr etholaeth heb ystyried tueddiad pleidiol;

b. ychwanegu elfen o gyfranoldeb er mwyn darparu cyfreithlondeb mwy nag a fyddai wedi bodoli petai system etholiadol y Cynulliad wedi dilyn model San Steffan.

Mae gan Senedd yr Alban, gyda'i 129 o Aelodau, yr un system gymysg o ethol ond mae'r seddau Rhestr yn cynrychioli cyfran uwch o'r prif gyfanswm fel y dangosir yn Tabl 2. Mae 108 Aelod gan Gynulliad Gogledd Iwerddon, sydd wedi'u hethol drwy system Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy (PSD).

Tabl 2: maint a systemau etholiadol cyrff datganoledig

Cyrff Datganoledig y DUE	Aledau Etholaeth	Aelodau Rhestr	Cyfanswm	Cymhareb Cyntaf yn y Rhestr	Cymhareb Aelod: poblogaeth
Cymru	40	20	60	66%/33%	1: 48,400
Yr Alban	73	56	129	57%/43%	1: 39,300
GI	Etholwyd drwy sysem PSD		108	n/a	1: 15,600

A yw'r Cynulliad yn ddigon cynrychiadol ?

19. Mae diffiniadau posibl **cynrychiadolaeth** yn cynnwys:

a. yr adnabyddiaeth agos rhwng yr **Aelod etholedig unigol** a'r ardal a gynrychiolir;

b. y gyfatebiaeth rhwng y gynrychiolaeth o'r **pleidiau gwleidyddol** yn y Cynulliad a'r pleidleisiau a enillwyd yn yr etholiad;

c. y tebygrwydd rhwng aelodaeth o'r Cynulliad a **phoblogaeth Cymru** yn nhermau rhyw, ethnigaeth, proffil oedran, anabledd neu nodweddion dynodedig eraill;

d. y graddau y mae gwahanol **ddiddordebau** yng Nghymru, gan gynnwys diddordebau lleiafrifol, yn cael eu cynrychioli ymhlith yr aelodaeth;

e. y graddau y mae **blaenoriaethau polisi** Aelodau yn cynrychioli pryderon pobl Cymru.

20. Mae effaith y system etholiadol ei hun ar gynrychioladwyaeth yn unol â'r meini prawf hyn yn amrywio. Mae gan y system yr effaith fwyaf mewn perthynas â diffiniad b. uchod fel y gosodir yn Tabl 3:

Tabl 3: Cymhariaeth o siâr seddau'r Pleidiau gyda'u siâr o bleidleisiau a fwriwyd yn etholiadau'r Cynulliad 1999

Plaid	%pleidleisiau enilwyd[2] fel % pleidleisiau bwriwyd	seddau enillwyd fel % o'r seddau cyfan
Ceidwadwyr	16.2	15.0
Plaid Cymru	29.5	28.3
Llafur	36.5	46.7
Rhydd. Dem	13	10
Cyfanswm	**95.2**	**100**

21. Mae'r canlyniad cyflawn yn adlewyrchu'r siâr 2/3 a roddir i seddau etholaeth a'r 1/3 i'r seddau rhestr: y blaid fwyaf llwyddiannus yn yr etholaethau sy'n gwneud orau, gyda'r system restr yn rhannol ddigolledu hyn – ond ddim digon i greu cynrychiolaeth gyflawn sy'n gyfrannol llym i'r pleidleisiau a fwriwyd i'r pleidiau.

22. Mewn perthynas â'r diffiniadau posibl eraill a osodwyd allan ym mharagraff 19 uchod mae effaith y system etholiadol yn llai uniongyrchol. Mae nodweddion Aelodau Cynulliad gan fwyaf dan reolaeth y pleidiau gwleidyddol gan mai eu dulliau dethol ymgeiswyr hwy sy'n pennu'r dewisiadau sydd ar gael i bleidleiswyr.

23. Eto i gyd mae'r rheolau sy'n llywodraethu'r system etholiadol yn creu cyfleoedd i bleidiau gwleidyddol, unai mewn etholaeth leol neu ar lefel Cymru gyfan, i ddylanwadu ar nodweddion yr ymgeiswyr a ddetholwyd gan eu Pleidiau. Mae'r dulliau a ddefnyddiwyd i ddylanwadu ar gydbwysedd rhyw yr ymgeiswyr i'r Cynulliad yn cynnwys

2 Mae'r ffigyrau yn gyfataledd o bleidleisiau etholaeth a rhanbarth.

a. seddau etholaeth- gefeillio etholaethau (fel bo plaid yn dewis ymgeisydd gwrywaidd ar gyfer un etholaeth ac ymgeisydd benywaidd ar gyfer ei "gefaill" etholaeth)[3] a'r angen am restrau byr cyfartal o ran rhyw,

b. seddau rhanbarthol -"sipio" (gwragedd a dynion bob yn ail ar restr ymgeiswyr plaid).

24. Ym 1999 cynhyrchodd y system bleisleisio Gynulliad yn cynnwys 24 dynes a 36 dyn[4], heb unrhyw Aelodau o leiafrifoedd ethnig, a dau Aelod â chanddynt anabledd hunan gofnodedig.

25. Mewn perthynas â diffiniadau d. ac e. ym mharagraff 19 uchod – nid yw'r system etholiadol yn gosod dylanwad uniongyrchol ond mae'r system restr gaeëdig yn cynnig cyfleoedd i bleidiau gwleidyddol ddethol ymgeiswyr gyda golwg at sicrhau ethol grwpiau nad sy'n cael eu cynrychioli'n ddigonol. Dull amgen fyddai caniatáu pleidleiswyr i ddethol oddi wrth neu ail-flaenoriaethu trefn yr ymgeiswyr ar restr y blaid (rhestr 'led-agored') neu i weithredu rhestr cwbl agored sy'n caniatáu pleidleiswyr i ddethol ymgeiswyr o nifer o bleidiau. Byddai'r fath ymdriniaethau yn rhoi mwy o ddewis i bleidleiswyr ond yn lleihau'r cwmpas i bleidiau ddylanwadu ar nodweddion Aelodau'r Cynulliad drwy dechnegau fel "sipio".

Profiad y system bresennol

26. Er ei fod wedi cyflawni ei amcanion o gyflwyno mwy o elfen o gyfranoldeb i fewn i'r system, mae beirniaid y sytem bresennol yn dadlau ei fod wedi cynhyrchu dau gategori o Aelod Cynulliad, ac y gall hyn greu problemau diffinio i'r Aelodau ynghyd â drysu pleidleiswyr. Gellir dadlau yn erbyn hyn drwy ddweud bod mynediad i AC etholaethol a AC rhestr yn rhoi dewis ehangach i etholwyr, a gallai hyn gael ei werthfawrogi'n arbennig gan etholwyr sydd â'u tadogaeth bleidiol yn wahanol i un eu Haelod Cynulliad

27 Petai maint y Cynulliad i'w gynyddu tra'n cadw'r system bresennol o Aelod Ychwanegol, yna, gellir gwneud hynny drwy gynyddu unai nifer yr Aelodau etholaeth neu nifer yr Aelodau rhestr, neu'r ddau, neu amrywio'r cyfran sydd rhyngddyn nhw. Byddai cynyddu nifer yr Aelodau etholaeth a parhau gyda'r system Cyntaf yn y Ras ar gyfer eu hethol yn tueddu tuag at wneud aelodaeth y Cynulliad yn llai cyfrannol a bod y blaid fwyaf yn elwa. Byddai cynyddu'r Aelodaeth restr yn peri bod yr aelodaeth yn fwy cyfrannol fel bod y pleidiau lleiaf yn elwa ar draul y mwyaf.

3 Mae Deddf Gwahaniaethu Rhyw (Ymgeiswyr Etholiad) 2002 nawr yn caniatáu pleidiau i ddethol ymgeiswyr o rhestrau byr o wragedd yn unig.
4 Daeth hyn i fod yn 25 dynes a 35 dyn yn dilyn ymddiswyddiad Alun Michael yn Chwefror 2000 gyda Delyth Evans yn cymryd ei le.

28. Petai maint y Cynulliad i'w gynyddu heb gadw'r System Aelod Ychwanegol byddai'r ystod o opsiynau yn yr Atodiad yn gallu cael eu hystyried.

Y cwestiynau i ymgynghori arnynt yw:

a. beth yw eich profiad chi o weithrediad y system etholiadol bresennol – beth yw ei manteision a'i hanfanteision a pha newidiadau hoffech eu gweld?

b. a ddylid gwneud rhagor drwy'r system etholiadol i ddylananwadu ar nodweddion yr ymgeiswyr a gynigir gan y pleidiau gwleidyddol ac os felly pa fesurau fyddech yn eu hargymell?

Ffiniau'r Etholaeth

29. Ar hyn o bryd mae gan etholaethau'r Cynulliad yr un ffiniau â'r etholaethau Seneddol. Mae'r rhain yn cael eu harolygu ar hyn o bryd fel rhan o'r 5ed arolygiad statudol gan Gomisiwn Ffiniau Cymru. Mae'n bosibl y bydd y Comisiwn, o ganlyniad i newidiadau poblogaeth, yn argymell bod y nifer o seddau Seneddol Cymreig yn codi i 41 neu 42. Mae'r Comisiwn yn gorff annibynnol gyda chasgliadau na ellir dylanwadu arnynt gan y Cynulliad na gan Lywodraeth y DU. Rhoddir ei argymhellion ar waith drwy Orchymyn dan law cymeradwyaeth Seneddol.

30. Byddai'r fath gynnydd yn parhau â'r codiad graddol mewn cynrychiolaeth Seneddol Gymreig ers sefydlu'r Comisiwn Ffiniau ym 1944 pan mai 35 oedd nifer yr ASau Cymreig. Mae gan yr Alban a Chymru ill dau eu Comisiwn Ffiniau eu hunain sy'n argymell etholaethau wedi seilio ar gwota etholiadol (h.y. poblogaeth darged etholwyr am bob etholaeth) o tua 55,000, sy'n arwyddocaol is na'r cwota i Loegr (ychydig o dan 70,000). Mae adolygiadau olynol yn Lloegr, Cymru a'r Alban wedi esgor ar sefyllfa ble mae gan Gymru a'r Alban fwy o Aelodau Seneddol o'i gymharu â phoblogaeth na Lloegr. Petai gan Gymru yr un nifer â Lloegr o'i gymharu â phoblogaeth – gallai fod o gwmpas 32 ASau Cymreig. Ar yr un sail, byddai gan yr Alban, sydd â 72 ASau ar hyn o bryd, 59 Aelod.

31. O dan y trefniadau a osodwyd pan bennwyd ffurf datganoli'r Alban, gwaredodd Ddeddf yr Alban 1998 y gwarant flaenorol o o leiaf 71 sedd Albanaidd yn San Steffan gan ofyn i Gomisiwn Ffiniau'r Alban bennu lefel y gynrychiolaeth Albanaidd drwy ddefnyddio'r un cwota etholiadol ag yn Lloegr. Byddai hynny'n arwain at leihad yn y nifer o AS Albanaidd. Ym Mawrth 2002 ymgynghorodd Ysgrifennydd Gwladol yr Alban ar p'un a'i ddylai 'na fod leihad cyfatebol yn y nifer o seddau etholaeth (ac felly hefyd o aelodau rhanbarthol, er mwyn cadw'r gymhareb bresennol o aelodau etholaethol a rhanbarthol) yn Senedd yr Alban, yn unol â gofynion y darpariaethau yn Neddf yr Alban.

32. Yn Rhagfyr cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol na fyddai, yn dilyn ymgynhoriad, y lleihau yma'n digwydd, ac y byddai'r nifer o seddau yn Senedd yr Alban yn parhau i fod yn 129. Felly bydd y cysylltiad rhwng ffiniau Seneddol yr Alban a San Steffan yn cael eu torri. Yn y dyfodol, bydd tua 59 o ASau Albanaidd yn dychwelyd o'u hetholaethau i San Steffan tra y pery 73[5] o etholaethau ar gyfer etholiadau i Senedd yr Alban.

33. P'unai o ganlyniad i waith Comisiwn Ffiniol Cymru neu i unrhyw reswm arall, ymddengys yn ddoeth i osgoi'r ragdybiaeth bod y 40 etholaeth Seneddol/Cynulliadol presennol yn cynrychioli maen adeiladu sefydlog ar gyfer elfen etholiadol cynrychiolaeth y Cynulliad.

Y cwestiwn i ymgynghori arno yw:

- **gan gadw mewn cof y gallai nifer yr etholaethau Seneddol Cymreig newid yn y dyfodol – pa mor bwysig yw hi i gynnal ffiniau cyffredin ar gyfer etholaethau'r Cynulliad a rhai San Steffan?**

Ffactorau i'w hystyried wrth lunio Cynulliad o bosib yn fwy o faint

34. Gan ystyried yr ystyriaethau a amlinellwyd uchod mae yna nifer o ffyrdd o lunio Cynulliad mwy o faint.

Y cwestiwn i ymgynghori arno yw: petai yna achos ar gyfer cynyddu maint y Cynulliad – sut dylid ei lunio a pha ystyriaethau ddylai gario'r pwysau trymaf:

a. cynnal y cysylltiad gyda ffiniau etholaeth San Steffan a drafodwyd uchod

b. parhad yn y system etholiadol – cadw'r system gymysg a gwarchod yn fras yr un gymhareb o Aelodaeth Etholaeth i Aelodau Rhestr fel a geir nawr

c. cadw'r system gymysg ond cynnyddu'r naill neu'r llall (h.y. etholaethol neu ranbarthol) o'i helfennau – os felly pa un?

d. cadw'r system gymysg ond creu rhestr genedlaethol yn lle'r rhestrau rhanbarthol

e. rhoi system gyfrannol arall yn lle'r system gymysg

f. rhoi system fwyafrifyddol (Cyntaf yn y Ras) yn lle'r system gymysg

g. rhyw opsiwn arall.

5 Mae gan yr Ynysoedd un sedd yn fwy yn senedd yr Alban nag yn San Steffan.

Cwrdd â'r Comisiwn

Mae'r Comisiwn yn cynnal cyfres o gyfarfodydd cyhoeddus i fyny at ddiwedd Gorffennaf a fydd yn darparu'r cyfle i aelodau'r cyhoedd leisio'u barn ynghylch y pynciau yn y papur hwn a phapur cynharach y Comisiwn ar bwerau'r Cynulliad Cenedlethol. Mae dyddiadau'r cyfarfodydd arfaethedig fel a ganlyn – bydd manylion ar gael oddi wrth y Comisiwn yn nes at yr amser a byddant yn ymddangos yn y wasg:

Llandudno - 26 Mawrth

Hwlffordd - 10 Ebrill

Llandrindod - 8 Mai

Casnewydd - 22 Mai

Merthyr Tydful - 26 Mehefin

Caerdydd - 10 Gorffennaf.

Fe gynhaliodd y Comisiwn ei gyfarfod cyhoeddus cyntaf yn Abertawe ar 15 Ionawr.

Cyflwyno tystiolaeth

Dylech anfon ymatebion i'r papur hwn at richard.commission@wales.gsi.gov.uk neu at Ysgrifenydd y Comisiwn yn

Comisiwn Richard
Tŷ Caradog
1-6 Plas Sant Andreas
Caerdydd
CF10 3BE

Byddwn yn ddiolchgar iawn petai'r ymatebion i'r papur yn dod i law cyn diwedd mis **Mehefin 2003**. Byddai o gymorth petai cymaint o gyfraniadau ag sy'n bosibl yn dod i law cyn y dyddiad hwn, er mwyn inni fedru eu hychwanegu at flaen-raglen y Comisiwn os bydd angen eu trafod ymhellach mewn sesiynau tystiolaeth lafar.

Bydd y dystiolaeth yn cael ei chyhoeddi a bydd ar gael yn ôl y gofyn, oni bai fod cyfranwyr wedi yn y byddai'n well ganddynt i'w tystiolaeth gael ei thrin yn gyfrinachol. Mae gan unigolion a sefydliadau sy'n darparu tystiolaeth ysgrifenedig hawl i gyhoeddi'r dystiolaeth honno eu hunain fel cyfraniad at ddadl gyhoeddus.

Systemau Etholiadol

Mae'r Atodiad yma'n darparu cyflwyniad byr i'r systemau pleidleisio mwyaf adnabyddus. ac yn nodi etholiadau lle cafodd y system honno ei defnyddio.

Y systemau yw

1. Cyntaf yn y Ras (neu Fwyafrif Syml)
2. Rhestr Plaid
3. System Aelodau Ychwanegol (neu Aelodau Cymysg Cyfrannol)
4. Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy
5. Ailbleidlais
6. Pleidlais Atodol
7. Ailbleidlais a Mwy

1. Cyntaf-yn-y-Ras (FPTP) – neu System Mwyafrif Syml

Sut mae'r system yn gweithio:

Gyda'r system Cyntaf-yn-y-Ras (FPTP) mae'r pwyslais ar gysylltiad uniongyrchol ac atebolrwydd clir rhwng y pleidleisiwr a'i gynrychiolydd / chynrychiolydd etholedig. Mae'r cynrychiolydd yn cynrychioli ardal etholiadol benodedig ("etholaeth", "dosbarth etholiadol", "ward", etc.) ac mae gan bob un o'r ardaloedd hynny nifer sefydlog o gynrychiolwyr. Yn y bleidlais ar gyfer y cynrychiolwyr hynny mae nifer y pleidleisiau sydd gan y pleidleiswyr yn yr ardal etholiadol yn cyfateb i nifer y cynrychiolwyr. Os oes gan yr ardal etholiadol un cynrychiolydd, mae gan y pleidleiswyr yn yr ardal honno un bleidlais. Ond os oes tri chynrychiolydd, mae gan y pleidleiswyr hawl i dair pleidlais. Gall y pleidleiswyr ddewis bwrw eu holl bleidleisiau neu rai o'u pleidleisiau'n unig. Yn y DG, er mwyn nodi eu dewis, mae'r pleidleiswyr yn rhoi 'X' ar y papur pleidleisio gyferbyn ag enw (enwau) yr ymgeisydd (ymgeiswyr) sy'n cael eu cefnogaeth.

Gyda Chyntaf yn y Ras nid oes gan ganran y pleidleisiau a enillwyd gan ymgeisydd mewn pleidlais unrhyw berthynas â'r modd y caiff y seddau ar gyfer yr ardal honno eu rhannu. Y ffactorau sy'n penderfynu hynny yw safle'r ymgeisydd yn y cyfrif olaf o

bleidleisiau a nifer y cynrychiolwyr sydd gan yr ardal etholiadol ar y corff y mae'r etholiad yn cael ei gynnal ar ei gyfer. Felly, mewn ardal etholiadol ag un cynrychiolydd, yr ymgeisydd sy'n cael y mwyaf o bleidleisiau yn y bleidlais sy'n ennill y sedd; mewn ardal etholiadol â thair sedd, mae'r tri ymgeisydd â'r mwyaf o bleidleisiau'n ennill seddau.

Lle caiff y system ei defnyddio: ar gyfer etholiadau i Dŷr Cyffredin, Tai Cyngres yr Unol Daleithiau, senedd-dai isaf Canada ac Awstralia. Ar gyfer etholiadau llywodraeth leol yn y DG ac yn UDA, Canada ac India.

2. System Rhestr Plaid

Sut mae'r system yn gweithio:

Mae'r system rhestr plaid yn un o'r systemau cynrychiolaeth gyfrannol fwyaf cyffredin. Prif egwyddor cynrychiolaeth gyfrannol yw y dylai nifer y cynrychiolwyr sydd gan bob grŵp gwleidyddol mewn corff etholedig adlewyrchu'n fras y gyfran o gyfanswm y bleidlais a enillir gan y grŵp hwnnw yn yr etholiad i'r corff.

Mewn system rhestr plaid, mae'r pleidleiswyr yn bwrw un bleidlais, gan ddewis rhwng rhestrau o ymgeiswyr sy'n cael eu llunio gan bleidiau gwleidyddol. Mae'r holl bleidleisiau sy'n cael eu bwrw ar gyfer pob rhestr plaid mewn ardal etholiadol yn cael eu cyfrif ac mae pob plaid yn derbyn seddau yn yr ardal sy'n cyfateb yn fras i gyfran y pleidleisiau a enillwyd ganddi yn yr ardal honno.

Mae'r ardaloedd etholiadol yn tueddu i fod yn fawr o ran maint daearyddol a nifer y pleidleiswyr ac etholir sawl cynrychiolydd i bob ardal etholiadol. Ambell waith gall yr holl gorff etholiadol gael ei ethol o un ardal etholiadol, gan gwmpasu'r ardal gyfan y mae'r corff yn gyfrifol amdani; ar y llaw arall, gall y corff etholiadol fod â sawl ardal etholiadol, a chynhelir pleidlais rhestr plaid ar wahân ym mhob un.

Mae pob plaid wleidyddol sy'n cynnig rhestr o ymgeiswyr yn rhestru ei hymgeiswyr yn ôl ei blaenoriaeth hi. Mae nifer yr ymgeiswyr sy'n cael eu cynnwys ar restr plaid yn amrywio – a gall ddibynnu ar y rheolau ar gyfer yr etholiad dan sylw a/ neu argaeledd ymgeiswyr i'r blaid. Yn gyffredinol, bydd y terfyn uchaf yn cyfateb i nifer y seddau sydd ar gael yn yr ardal etholiadol; ar y llaw arall, gall y rhestr gynnwys un enw yn unig. Gall ymgeiswyr nad ydynt yn cynrychioli plaid wleidyddol gael caniatâd i ymladd etholiadau rhestr plaid fel ymgeiswyr annibynnol; os felly, mae pob ymgeisydd annibynnol yn cael ei drin mewn gwirionedd fel pe bai'n rhestr plaid unigol.

Gall enwau'r ymgeiswyr sy'n rhan o restr plaid gael eu cynnwys neu ddim ar y papur pleidleisio. Po fwyaf yw nifer y cynrychiolwyr a etholir o'r ardal etholiadol, y mwyaf anodd yw hi i gynnwys enwau'r ymgeiswyr rhestr ar y papur pleidleisio. Mewn achosion o'r fath, gwneir trefniadau eraill i roi cyhoeddusrwydd i enwau'r ymgeiswyr – e.e. eu harddangos ar waliau gorsafoedd pleidleisio neu eu cynnwys ar daflenni sy'n cael eu dosbarthu cyn yr etholiad.

Unwaith y mae'r pleidleisiau ar gyfer pob rhestr plaid wedi'u cyfrif, defnyddir fformiwla i gyfrifo nifer y seddau y gall pob plaid eu hawlio. Defnyddir sawl fformiwla. Yna, bydd seddau pob plaid yn cael eu rhannu ymhlith yr ymgeiswyr sydd ar restrau'r pleidiau. Fel arfer, yr ymgeiswyr sy'n ennill yw'r rhai sydd uchaf ar restr ymgeiswyr eu plaid. Felly, os oes hawl gan restr plaid i gael tair sedd, bydd y seddau hynny'n cael eu rhoi i'r tri ymgeisydd uchaf ar eu rhestr.

Yn gyffredinol, dan y systemau rhestr plaid, mae'r pleidleiswyr yn pleidleisio dros y blaid wleidyddol, ac ni allant gyfrannu at benderfynu pa ymgeiswyr ar restr y blaid sy'n cael eu hethol. Gelwir y system hon yn system **rhestr gaeedig**. Mewn system sydd ychydig yn wahanol, y system **rhestr agored**, gall y pleidleisiwr bleidleisio naill ai dros y rhestr fel y'i cyhoeddir neu fe all bleidleisio dros un o'r ymgeiswyr ar y rhestr, waeth beth yw safle'r ymgeisydd ar y rhestr, Gallai hyn newid y drefn y cafodd yr ymgeiswyr eu rhoi ar y rhestr, ac felly'r rhestr o'r ymgeiswyr llwyddiannus, ond eto'n cofrestru cefnogaeth i blaid ddewisedig y pleidleisiwr.

Defnyddir y system: mewn etholiadau seneddol mewn sawl gwlad ar gyfandir Ewrop ac Israel. Cafodd ei defnyddio ym Mhrydain ar gyfer Etholiadau Senedd Ewrop – gan ddefnyddio'r system rhestr gaeedig.

3. System Aelodau Ychwanegol (AMS)

Sut mae'r system yn gweithio:

Mae'r System Aelodau Ychwanegol yn ffurf arall ar gynrychiolaeth gyfrannol. Fe'i datblygwyd i'w defnyddio yng Ngweriniaeth Ffederal yr Almaen ar ôl yr Ail Ryfel Byd. Mae'n ceisio cyfuno, mewn un system bleidleisio, nodweddion Cyntaf-yn-y-Ras a'r System Rhestr Plaid. Yr amcan yw cadw'r cysylltiad amlwg rhwng y cynrychiolydd a'i ardal/ hardal etholiadol ac, ar yr un pryd, darparu mecanwaith i wneud yn iawn am ddiffyg cyfranoldeb sydd ambell waith yn digwydd pan fo etholiadau'n cael eu cynnal yn llwyr dan y system Cyntaf-yn-y-Ras.

Mae'r System Aelodau Ychwanegol yn golygu taw aelodaeth y corff etholedig yw cynrychiolwyr sy'n cael eu hethol naill ai gan y system Cyntaf-yn-y-Ras o ardaloedd etholiadol un-aelod neu'r system rhestr plaid. Bydd y bleidlais rhestr plaid yn cwmpasu naill ai'r ardal gyfan a wasanaethir gan y corff etholiadol neu is-ranbarthau o'r ardal honno. Gydag is-ranbarthau, mae'n ofynnol o hyd i'r is-ranbarth gynnwys nifer o ardaloedd cyfan un-aelod. Mae'r cysylltiad daearyddol hwn yn hanfodol oherwydd pwrpas y seddau rhestr plaid (neu "ychwanegol") yw darparu ffordd o unioni diffyg cyfranoldeb yn y canlyniadau cyffredinol o'r etholiadau un-aelod.

Mae'r broses o ethol cynrychiolydd ar gyfer pob ardal etholiadol un-aelod yn debyg i'r broses Cyntaf-yn-y-Ras (gweler adran 1 uchod). Mae'r etholiad rhestr plaid yn cael ei gynnal yn unol â'r egwyddorion a amlinellwyd yn adran 2 uchod - hyd at yr adeg pan fydd y seddau rhestr plaid i'w rhannu. Gyda'r System Aelodau Ychwanegol, er mwyn rhannu'r seddau rhestr plaid, defnyddir fformiwla sy'n ystyried y seddau aelod-unigol a enillwyd eisoes gan bob plaid yn yr ardal lle cafwyd yr etholiad rhestr plaid. Mae defnyddio'r fformiwla hon yn golygu os nad yw nifer y seddau aelod-sengl a enillwyd gan blaid yn adlewyrchu'r gefnogaeth a gafodd, fe ddylai ennill rhai o'r seddau rhestr plaid. Yn gyffredinol, wrth i'r seddau gael eu rhannu'n derfynol (gan ystyried cynrychiolwyr un-aelod a rhestr-plaid) fe ddylai dosbarthiad y pleidleisiau rhwng y pleidiau gael ei adlewyrchu.

Unwaith y gwneir penderfyniad ynghylch hawl plaid i seddau rhestr plaid, caiff y seddau eu rhannu ymhlith yr ymgeiswyr ar restr y blaid honno yn unol â'r broses mewn etholiadau rhestr plaid arferol. Eto, gellir defnyddio rhestrau agored neu gaeedig.

Gall y gymhareb seddau rhestr plaid i seddau un-aelod mewn corff etholiadol amrywio, ond, yn gyffredinol, po uchaf yw cyfran y seddau rhestr plaid, y mwyaf tebygol yw canlyniad cyffredinol sy'n union gyfrannol.

Defnyddir y system:

ar gyfer etholiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Senedd yr Alban, Cynulliad Llundain Fawr, yn yr Almaen ac ar gyfer etholiadau seneddol yn Seland Newydd (lle gelwir y system yn Gynrychiolaeth Gyfrannol Aelodau Cymysg neu MMP).

4. Pleidlais sengl drosglwyddadwy

Sut mae'r system yn gweithio:

Dyfeisiwyd y bleidlais sengl drosglwyddadwy (STV) yn y 19eg ganrif ac mae'n ffurf arall ar gynrychiolaeth gyfrannol.

Gyda'r bleidlais sengl drosglwyddadwy, gofynnir i'r pleidleiswyr bleidleisio dros ymgeiswyr mewn ardaloedd etholiadol penodedig, Bydd pob ardal etholiadol â sawl cynrychiolydd – tri fel arfer, ond yn aml ceir mwy na hyn. Gall yr ymgeiswyr sefyll os ydynt yn cael eu cefnogi'n swyddogol gan blaid wleidyddol ai peidio, ac mae enwau'r holl ymgeiswyr ar y papur pleidleisio.

Mae'r pleidleiswyr yn nodi blaenoriaeth ar gyfer cynifer o ymgeiswyr ag a fynnant drwy eu rhoi mewn trefn rifol: 1af, 2il, 3ydd, 4ydd, 5ed, etc. Gall y pleidiau gwleidyddol gynnig ymgeisydd ar gyfer pob sedd yn yr ardal etholiadol, ond wrth nodi eu blaenoriaethau gall y pleidleiswyr restru'r ymgeiswyr mewn unrhyw drefn, beth bynnag yw'r cysylltiadau pleidiol.

Er mwyn ennill sedd, rhaid i'r ymgeisydd gael "cwota" penodol o bleidleisiau yn yr ardal etholiadol. At ei gilydd, pennir y cwota drwy gymryd nifer y pleidleisiau dilys a fwriwyd yn yr ardal etholiadol a'u rhannu â nifer y seddau i'w hennill + un ac yna ychwanegu un at y canlyniad. Felly, os oes gan ardal etholiadol bum cynrychiolydd, pennir y cwota drwy rannu cyfanswm y pleidleisiau dilys â 6 (h.y. 5+1) ac yna ychwanegu un.

Pan fydd y pleidleisiau'n cael eu cyfrif am y tro cyntaf, archwilir y blaenoriaethau cyntaf ar gyfer pob pleidlais. Etholir unrhyw ymgeisydd sy'n derbyn digon o bleidleisiau blaenoriaeth gyntaf i fodloni'r cwota. Yn aml, mae gan rai ymgeiswyr fwy o bleidleisiau na'r cwota. Bryd hynny, caiff yr holl bleidleisiau sy'n fwy na'r cwota eu hystyried yn bleidleisiau dros ben. Ond ni chaiff y pleidleisiau hyn eu hanwybyddu; yn hytrach, cânt eu trosglwyddo i'r ymgeisydd sydd nesaf o ran blaenoriaeth ar restr y pleidleisiwr. Unwaith y caiff y pleidleisiau hyn eu trosglwyddo, ceir ail gyfrif i weld a oes unrhyw ymgeisydd arall nawr wedi bodloni'r cwota.

Fel arfer, bydd angen cyfrif ychwanegol er mwyn dewis y gwahanol fuddugwyr yn eu trefn nes bod yr holl seddau sydd ar gael wedi eu hennill. Yn ystod unrhyw gyfrif, os nad yw'r un ymgeisydd yn bodloni'r cwota, caiff yr ymgeisydd â'r nifer leiaf o bleidleisiau ei fwrw/ ei bwrw allan a chaiff ei bleidleisiau/ phleidleisiau eu trosglwyddo i'r ymgeisydd sydd nesaf o ran blaenoriaeth ar y papur pleidleisio. (Os na nodir blaenoriaeth ar gyfer ymgeisydd arall ar bapur pleidleisio, yna aiff y bleidlais yn bleidlais 'anhrosglwyddadwy' ac ni chaiff ei defnyddio). Caiff pleidleisiau eu trosglwyddo oddi wrth ymgeiswyr a gafodd eu hethol neu eu bwrw allan drwy gydol yr holl gyfrif nes llenwi pob sedd.

Nodweddion pwysicaf y system pleidlais sengl drosglwyddadwy yw: (1) mae nifer o ymgeiswyr yn cael eu hethol ym mhob ardal etholiadol; (2) mae'r pleidleiswyr yn bwrw eu pleidleisiau dros ymgeiswyr unigol yn nhrefn eu blaenoriaeth; a (3) gall y pleidleiswyr rannu eu blaenoriaethau rhwng ymgeiswyr o bleidiau gwahanol neu ymgeiswyr annibynnol.

Defnyddir y system:

ar gyfer etholiadau seneddol yng Ngweriniaeth Iwerddon a Malta, etholiadau i Senedd Awstralia, ac yng Ngogledd Iwerddon ar gyfer etholiadau Cynulliad, llywodraeth leol a Senedd Ewrop. Yn ogystal, cafodd y system pleidlais sengl drosglwyddadwy ei chyflwyno'n ddiweddar fel opsiwn ar gyfer etholiadau llywodraeth leol yn Seland Newydd.

5. Yr Ailbleidlais

Sut mae'r system yn gweithio:

Mae'r Ailbleidlais (AV) yn amrywiad o'r system Cyntaf-yn-y-Ras. Gydag Ailbleidlais, etholir cynrychiolwyr o ardaloedd etholiadol un-aelod, ond yn hytrach na gosod un "X" gyferbyn ag enw un ymgeisydd, gofynnir i bob pleidleisiwr restru'r ymgeiswyr ar y papur pleidleisio yn ôl blaenoriaeth. Gwneir hyn drwy roi '1' gyferbyn â'u ffefryn, '2' gyferbyn â'u hail ddewis ac felly ymlaen. Os yw ymgeisydd yn derbyn mwyafrif o bleidleisiau safle cyntaf, fe'i hetholir. Fodd bynnag, os nad yw'r un ymgeisydd yn cael dros 50% o'r bleidlais, caiff yr ymgeisydd â'r nifer leiaf o bleidleisiau ei fwrw/ ei bwrw allan a chaiff y pleidleisiau eu trosglwyddo i'r ymgeisydd sydd nesaf o ran blaenoriaeth ar y papurau pleidleisio hynny. Mae'r un peth yn digwydd dro ar ôl tro nes bod un ymgeisydd yn cael mwyafrif llwyr o'r pleidleisiau a gafodd eu cyfrif. Nid yw'r ailbleidlais yn cael ei hystyried yn system gyfrannol, ond yn hytrach yn system fwyafrifyddol.

Defnyddir y system: yn Nhŷr Cynrychiolwyr yn Awstralia

6. Y Bleidlais Atodol (SV)

Sut mae'r system yn gweithio:

Mae'r bleidlais atodol (SV), yn amrywiad arall o bleidlais system fwyafrifyddol. Mae'r bleidlais atodol yn debyg i'r ailbleidlais, ond mae'r pleidleiswyr yn cael yr opsiwn o nodi ail flaenoriaeth (yn unig) ymhlith yr ymgeiswyr yn yr ardal etholiadol – sydd ag un aelod. Nid yw'n ofynnol i'r pleidleiswyr nodi ail flaenoriaeth os nad ydynt yn dymuno gwneud hynny. Fel arfer, ceir dwy golofn ar y papur pleidleisio – un ar gyfer y flaenoriaeth gyntaf ac un ar gyfer yr ail flaenoriaeth. Mae'r pleidleiswyr yn rhoi 'X' yn y golofn gyntaf ar gyfer eu blaenoriaeth gyntaf ac ail 'X' yn yr ail golofn ar gyfer eu blaenoriaeth arall.

Caiff blaenoriaethau'r pleidleiswyr eu cyfrif ac os yw un o'r ymgeiswyr yn cael 50% o'r bleidlais, yna mae'n cael ei ethol. Os nad yw un o'r ymgeiswyr yn llwyddo i gael 50%

o'r bleidlais, mae'r ddau ymgeisydd â'r nifer fwyaf o bleidleisiau'n cael eu cadw ac mae'r ymgeiswyr eraill yn cael eu bwrw allan. Archwilir yr ail flaenoriaethau ar bapurau pleidleisio'r ddau ymgeisydd â'r nifer fwyaf o bleidleisiau, ac mae unrhyw bleidleisiau a gafodd eu bwrw drostynt yn cael eu trosglwyddo iddynt. Y sawl sydd â'r nifer fwyaf o bleidleisiau ar ddiwedd y broses sy'n ennill.

Defnyddir y system i ethol Maer Llundain.

7. Yr Ailbleidlais Plws (AV+)

Sut mae'r system yn gweithio:

Mae'r Ailbleidlais Plws yn system gymysg, yn debyg i'r System Aelodau Ychwanegol, sy'n cyfuno ardaloedd etholiadol un-aelod ac aelodau ychwanegol ar restrau'r pleidiau. Mae gan bleidleiswyr ddwy bleidlais – un ar gyfer eu hardal etholiadol un-aelod a'r llall ar gyfer rhestr plaid.

Mae'r cynrychiolwyr o'r ardaloedd etholiadol un-aelod yn cael eu hethol o dan y system Ailbleidlais (gweler uchod). Mae'r aelodau "ychwanegol" yn cael eu hethol yn yr un ffordd â'r aelodau ar restrau'r pleidiau o dan y System Aelodau Ychwanegol (gweler uchod).

Nid yw'r system hon yn cael ei defnyddio mewn unrhyw le yn y byd ar hyn o bryd. Dyma'r system a ddewiswyd gan y Comisiwn Annibynnol ar y System Bleidleisio (a gadeiriwyd gan Arglwydd Jenkins o Hillhead) i'w cynnig i'r etholwyr mewn refferendwm fel system yn lle Cyntaf yn y Ras ar gyfer Etholiadau Cyffredinol yn y DG.

Y Comisiwn ar Bwerau a Threfniadau Etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Cylch Gorchwyl

Roedd dogfen Llywodraeth Cynulliad Cymru Rhoi Cymru'n Gyntaf yn cynnwys ymrwymiad i *sefydlu Comisiwn annibynnol i edrych ar bwerau a threfniadau etholiadol y Cynulliad Cenedlaethol er mwyn sicrhau ei fod yn gallu gweithredu er budd pennaf pobl Cymru. Dylai'r arolwg hwn ymchwilio ymysg pethau eraill i ehangu cyfranoldeb yng nghyfansoddiad y Cynulliad, a'r grymoedd perthnasol a ddatganolwyd.*

Nodir cylch gwaith manwl y Comisiwn isod.

Pwerau'r Cynulliad

Dylai'r Comisiwn ystyried a yw pwerau presennol y Cynulliad yn ddigonol, gan ystyried yn arbennig

- a yw pwerau'r Cynulliad yn ddigon clir i sicrhau bod y broses o lunio polisïau mor effeithlon â phosibl;
- a yw pwerau'r Cynulliad yn ddigon llydan *(h.y. amrediad y meysydd y maeganddo reolaeth drostynt)* a dwfn *(h.y. y gallu i newid pethau o fewn y meysydd hynny)* i ganiatáu llunio polisïau integredig a chyson ar faterion lle ceir agenda Gymreig glir ac unigryw;
- a yw'r mecanweithiau ar gyfer llunio polisïau sy'n effeithio ar Gymru ar lefel Llywodraeth y DU, a'r trefniadau ar gyfer sicrhau bod y Cynulliad yn dylanwadu arnynt, yn glir ac yn effeithiol ac, yn arbennig, a ydynt yn unioni unrhyw ddiffygion a ddaeth i'r amlwg mewn perthynas a'r pwynt blaenorol;
- a yw'r rhaniad cyfrifoldebau rhwng y Cynulliad a Llywodraeth y DU yn rhoi cyfyngiadau amhriodol ar y broses o lunio polisïau yn Whitehall, o ran materion y mae'r Cynulliad yn gyfrifol amdanynt ac fel arall.

Dylai'r Comisiwn ystyried goblygiadau ariannol posibl rhoi ei argymhellion ar waith.

Trefniadau etholiadol

Dylai'r Comisiwn ystyried pa mor ddigonol yw trefniadau etholiadol y Cynulliad, gan ystyried yn arbennig

- a yw'r Cynulliad yn ddigon mawr iddo allu gweithredu'n effeithiol o fewn yr wythnos waith arferol, a hynny heb roi pwysau annerbyniol ar Aelodau;
- a yw'r dull o ethol y Cynulliad, gan gynnwys cyfran yr aelodau sy'n cael eu hethol drwy gynrychiolaeth gyfrannol, yn cynrychioli'r holl fuddiannau pwysicaf yng Nghymru yn ddigonol ac yn gywir
- a fyddai unrhyw newidiadau y gellid eu hargymell o ran pwerau'r Cynulliad yn ei gwneud yn angenrheidiol neu'n ddymunol newid maint y Cynulliad neu'r dull o'i ethol.

Adroddiad

- Dylai'r Comisiwn gyhoeddi adroddiad yn amlinellu ei benderfyniadau, gan gynnwys ei argymhellion ynghylch y materion uchod, erbyn diwedd 2003. Caniateir iddo gyhoeddi adroddiadau neu argymhellion interim fel y gwêl yn dda.

Materion gweithdrefnol

- Ni fydd Llywodraeth Cynulliad Cymru na'r Cynulliad yn ei gyfanrwydd yn dylanwadu ar y Comisiwn mewn unrhyw ffordd. Y Comisiwn fydd yn penderfynu ar ei agenda a'i flaenoriaethau o fewn y cylch gwaith hwn.
- Gall y Comisiwn benderfynu ar ei weithdrefnau ei hun. Rhaid iddo, fodd bynnag:
  - dderbyn tystiolaeth lafar ac/neu ysgrifenedig gan unrhyw un sy'n dymuno ei roi;
  - dderbyn tystiolaeth o'r fath yn Gymraeg neu yn Saesneg;
  - gwrdd yn gyhoeddus oni bai fod y sawl sy'n rhoi tystiolaeth yn gofyn am gael cyflwyno ei dystiolaeth yn breifat neu fod y Comisiwn yn penderfynu cwrdd yn breifat, hynny o dan amgylchiadau eithriadol;
  - gyhoeddi adroddiadau achlysurol ar ei waith a'r dystiolaeth a dderbyniwyd.
- Nid oes gan y Comisiwn yr hawl i orfodi unrhyw un i roi tystiolaeth nac i weld unrhyw ddogfen heblaw am y rheini sydd ar gael o dan bolisi'r Cynulliad ar ryddid gwybodaeth neu drefniadau cyfatebol.

Ysgrifenyddiaeth

Bydd Ysgrifenyddiaeth o weision sifil ar secondiad o'r Cynulliad yn cynorthwyo'r Comisiwn yn ei waith.